

Templed: Datganiad Ysgol Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026 i 2027.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academiaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

Os yw'ch rhifau yn 5 neu lai, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn diogelu plant rhag cael eu hadnabod.

Trosolwg Ysgolion

Manylion	Data
Enw'r ysgol	Ysgol Tremeirchion
Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol	67 llawn amser
Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD	*
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn	1/6/26
Dyddiad y caiff ei adolygu	Medi 2026
Awdurdodwyd y datganiad gan	
Yn arwain ar y GDD	Bethan Davies
Llywodraethwr sy'n arwain	Fiona Irvine

Trosolwg Cyllid

Manylion	Swm
Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academiaidd hon	£2,300
Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academiaidd hon	£48,686

Rhan A: Cynllun Strategaeth

Datganiad o fwriad

Fel ysgol ein gweledigaeth yw :Fod pob plentyn sydd yn mynychu Ysgol Tremeirchion yn cael mynediad llawn i Cwricwlwm Ysgol Tremeirchion.

Sicrhewn fel Un teulu gyda'n gilydd y cychwyn gorau phosib a Sylfaen gadarn mewn amgylchedd Hapus, diogel, gofalgwr a Christnogol; mewn awyrgylch naturieol, ysgogol. Hyn oll er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cyrraedd eu llawn potensial ac yn ddysgwyr gydol oes.

Rhown cyfleoedd a phrofiadau eang a chytbwys, profiadau wrth wneud, defnyddio ein hardal leol a holl rhanddeiliaid yr Ysgol a'r gymuned.

Drwy fod yn Un teulu gyda'n gilydd ac yn dysgu a thyfu gyda'n gilydd fe fydd yn rhoi gwreiddiau cadarn, chwilfrydedd a brwdfrydedd i'n dysgwyr fod yn

- Ddysgwyr Uchelgeisiol a Galluog
- Cyfranwyr Mentrus a Chreadigol
- Ddinasyddion Egwyddorol a Gwybodus
 - Unigolion Iach a Hyderus.

Mae'r weledigaeth hon yn sail i'n dull o ddefnyddio'r grant GDD yn effeithiol ac yn deg.

Rydym eisiau gwella cynnydd a chyflawniad pob disgybl, cryfhau llesiant ac iechyd meddwl gan sicrhau fod ein dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn cael cefnogaeth ac yn barod i ddysgu. Cynyddu presenoldeb ag ymgysylltiad, fel bod pob dysgwr yn elwa'n llawn o'r cyfleoedd a ddarperir gan yr ysgol.

Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant
Cryfhau llesiant ac iechyd meddwl, gan sicrhau bod bob plentyn yn teimlo'n ddiogel a chael cefnogaeth barod i ddysgu	Bydd y dysgwyr yn teimlo'n saff a hapus yn amgylchedd yr Ysgol .
Cynyddu presenoldeb ac ymgysylltiad fel bod plentyn yn elwa'n llawn o'r cyfleoedd a ddarperir gan yr ysgol	Bydd presenoldeb y dysgwyr yn gyson dda fel y cawn nhw y cyfleoedd er mwyn ddatblygu a chodi dyheadau a chyflawniad.
Meithrin perthynas dda gyda'r teuluoedd.	Bydd perthynas dda gyda'r teuluoedd.

Gweithgarwch yn y flwyddyn academiaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academiaidd hon** i gyflawni y canlyniadau a fwriedir a restrir uchod.

--

Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: £ £750

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Sicrhau fod pob disgybl, yn enwedig y rhai sy'n gymwys ar gyfer cymorth GDD, yn cael addysgu rhagorol a mynediad at gyfleoedd cyfoethogi sy'n codi dyheadau a chyflawniad	Cynllunio o flaen llaw profiadau gwerthfawr i gyfoethogi profiadau'r dysgwyr. Ee Cael arbenigwyr celfyddydau mynegiannol Artist, dramodwyr, yoga Amserlenni a chalendr ysgol Dysgwyr yn cael mynediad llawn ar gyfer tripiâu, ymweliadau, aelodaeth Urdd ayyb

Ysgolion Bro (i gynnwys: (i) meithrin partneriaethau cryf gyda theuluoedd; (ii) ymateb i anghenion y gymuned; (iii) cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill)

Cost wedi'i chyllidebu: £ 750

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
(i) Monitro presenoldeb Adnewyddu system Studybugs £350	System monitro presenoldeb hwylus a chyflym lle gallwn gysylltu gyda'r rhieni gan adrodd ar presenoldeb eu plant; galluogi ni i godi pryderon a chydweithio gyda'r dysgwyr a'u teuluoedd. (eFSM/non-FSM gap currently?)
(ii) Rhyddhau athro/pennaeth i fynychu cyfarfodydd tim TAF x6 y flwyddyn £400 ac ymateb i'r hyn drafordwyd.	Cofnodion / Calendr Cyfarfodydd TAF

Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, lechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)

Cost wedi'i chyllidebu: £ 999

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
--------------	-------------------------------------

Hyfforddi aelod o staff therapi 'Drawing for talking' er mwyn galluogi cefnogi a chryfhau llesiant a iechyd emosiynol ein dysgwyr Hyfforddiant yn costio £299	Amserlen hyfforddiant- bydd y staff gyda arbenigedd cefnogi llesiant drwy celf yn hytrach na phlentyn yn gorfod siarad bob tro. Fydd dysgwyr yn gallu mynegi eu teimladau ac emosiynau drwy celf - dynnu lluniau yn gorfod siarad bob tro. Bydd tystiolaeth yn dangos gwelliannau mewn pryder, hunan-gysyniad, ymddygiad. Mae'r ymchwil yma yn y DU yn dweud fod therapi celf yn cefnogi lles a pherfformiad academiaidd.
Amser i rhyddhau aelod o staff i weithredu'r cynllun Drawing for talking sesiynau o 12 wythnos £200	Amserlen a chofnodion cefnogi dysgwyr Bydd staff yn gweld gwelliant yn lles emosiynol ein dysgwyr. Bydd y dysgwyr yn mynychu ysgol fwy rheolaidd ac yn mwynhau dysgu.
Parhau gyda Moodtracker sydd yn cofnodi emosiynau dysgwyr yn ddyddiol £500	Data Moodtracker

Cyfanswm cost y ceisiadau: £ 2,499

Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academiaidd flaenorol

Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academiaidd 2025 i 2026.

Gweithgarwch	Effaith
Mynediad llawn i addysg a chwicwlwm yr ysol	Wedi sicrhau fod holl dysgwyr yn cael yr addysg orau a mynediad llawn i holl weithgareddau yr ysgol wedi gwella cynnydd a chyflawniad pob disgybl, gan gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr difreintiedig a'u cyfoedion.
Defnydd Studybugs i dracio presenoldeb dysgwyr	Wedi ein galluogi ni fonitro presenoldeb holl dysgwyr yn gyflym o ddydd i ddydd wythnos i wythnos. Adnabod dysgwyr bregus. Cysylltu gyda rhieni. Pob aelod o staff yn gallu monitro hyn.
Defnydd Moodtracker	Galluogi ni adnabod dysgwyr bregus ac yn ein galluogi ni i ymateb a'u cefnogi yn syth. Drwy hyn gallwn gryfhau llesiant a iechyd meddwl holl ddysgwyr.

Rhaglenni a ddarperir yn allanol

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

Rhaglen	Darparwr
Moodtracker - tracio emosiynau dysgwyr	SAAS Schools www.saasschools.com
Study bugs – tracio presenoldeb	Studybugs.com

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Dim